

Ardal Llanelli Wledig

Cynllun Lle Cyfan - 2015 i 2030

Trosglwyddo Llesiant Lleol - nawr ac yn y tymor hir












www.llanelli-rural.gov.uk

Y GYMRU A GAREM
THE WALES WE WANT


Absenoldeb
Ar ôl
Fforddiadwy
Gwag
Ci
Cyfleusterau
Mynediad
Bynie
Sandy
Lefel
Pum Heol
Lleol
Ardal
Dydd
Effaith
Traffig
Trafnidiaeth
Hŷn
Balchder
Yn Lleol
Ffwrnes
Gweithgareddau
O amgylch
Tai
Teuluoedd
Biniau
Defnydd
Ifanc
Cyffur
Cefnogaeth
Cynheidre
Clwb
Llifogydd
Datblygu
Naturiol
Gollwng sbwriel
PACT
Gwell
Ystod y dydd
Datblygiad
Trigolion
Adlinio
Pontiets
Swyddfa
Ansawdd
Aer
Pwll
Dod â
Pentref
Diffyg
Goryrru
Digwyddiadau
Tu allan
Cyllido
Parc
Problem
Rhoddwyd
Cynhwysedd
Da
Canlyniad
Dafen
Anodd
Cyflymder
Newydd
Heol
Gordyfiant
Modd
Pobl
Ffordd
Gwasanaeth
Cyhoeddus
Cymysgu
Parcio
Cyfranogaeth
Llwynhendy
Cynnal
Mynd
Lechyd
Sgwâr
Yn unig
Pemberton
Band Eang
Ysgol
Mwy
Cyfathrebu
Chwarae
Dyffryn y Swistir
Ffocws
Y Bynie
Sylen
Cymuned
Hengoed
Tlawd
Bws
Unigedd
Felinfoel
Baeddu
Colled
Cyngor
Glyn
Ponthenri
Presenoldeb
Chwaraeon
Heddlu
Post
Anghenion
Gorfodaeth
Angenrheidiol
Sbwriel
Draenio

Cynnwys:

Rhagair

1. Beth yw Lle Cyfan?

2. Ardal Llanelli Wledig– Ble rydyn ni nawr a ble rydyn ni am fod

- Lle ffyniannus
- Lle cydnerth
- Lle Iachus
- Lle Mwy Cyfartal
- Lle Cydlynol
- Diwylliant Byw a Iaith Gymraeg Ffyniannus
- Ein Lle yn y Byd

3. Gwneud iddo weithio a gwirio os yw'n gweithio

Atodiadau

A. Proffiliau Lleoedd

Bynea, Dafen, Felinfoel, Glyn, Hengoed, Llwynhendy, Swiss Valley

B. Cynllun Gweithredu 2015-2018

C. Cysylltiad ag amcanion a chynlluniau gwasanaeth y Cyngor

Cafodd y cynllun ei ddatblygu gan Gyngor Gwledig Llanelli
Am fwy o fanylion cysylltwch â Darren Rees ar:
01554 774103, darren.rees@llanelli-rural.gov.uk
Ar gyfer diweddariadau yn y dyfodol ar y cynllun, ewch i'n gwefan, www.llanelli-rural.gov.uk;
Hoffi i ni ar Facebook, *Llanelli Rural Community* a dilynwch ni ar Twitter, *@LrcCommunity*
Mae fersiwn Iaith Saesneg ar gael drwy'r wefan a swyddfa.

Rhagair

Mae cynllun Lle Cyfan Ardal Llanelli Wledig wedi tyfu allan o gonsyrn dilys gan Aelodau'r Cyngor i ddeall yn well obeithion, ofnau a dyheadau'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Fel yr haen llywodraeth agosaf, sy'n byw ac yn gweithio yn y gymuned leol, yn darparu gwasanaethau o ddydd i ddydd sy'n helpu pobol i fyw bywydau diogel a llawn, mae'n hollbwysig ein bod yn dal cysylltiad â phobol leol a chydweithio gyda nhw i helpu i wella ansawdd bywyd pawb. .

Tra ein bod ni'n darparu ystod gyfyng o wasanaethau ein hunain ac yn cael ein herio i wneud hynny mewn hinsawdd o bwysau parhaol i wneud mwy gyda llai, mae gennym y cyfrifoldeb hefyd i weithio'n agos gydag eraill i wneud yn siŵr mai ardal Llanelli Wledig yw'r lle gorau i gael mynediad i'r adnoddau sydd eu hangen i gwrdd â'n hanghenion a nodwyd.

Yn ychwanegol at ymgymryd ag ymgysylltiad o ystod eang o bobol leol rydyn ni wedi gweithio'n agos gyda chefnogaeth llawn Aelodau a swyddogion Cyngor Sir Caerfyrddin, Bwrdd Iechyd Hywel Dda a Heddlu Dyfed Powys i ddatblygu'r cynllun hwn.

Mae'r dull Lle Cyfan rydyn ni'n ei arddel yn gyson ag arfer da cenedlaethol a rhyngwladol mewn datblygiad cynaliadwy, yn rhoi'r ardal ar y map fel lle sy'n gofalu am ac yn cynllunio ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Rydyn ni'n cymeradwyo'r fersiwn cyntaf hwn o'r cynllun i chi; fe fydd yn dal i esblygu wrth i ni wneud cynnydd, cadw mewn cysylltiad ac ail asesu'n rheolaidd ein blaenoriaethau a rennir.

Cllr M V Davies

Cadeirydd

Cyngor Gwledig Llanelli

1. Beth yw “Lle Cyfan?”

Mae Lle Cyfan yn ffordd o helpu pawb i gydweithio i wella bywydau ein poblogaeth leol, trwy ei ddatblygiad cynaliadwy. Gwneud yn siŵr fod gan bawb y cyfle i gyflawni eu potensial a byw mewn cymunedau diogel a gofalgar yw ein gweledigaeth ar gyfer ardal wledig Llanelli. Mae’r Cyngor Gwledig yn agos at y cymunedau lleol mae’n ei gynrychioli ac mae ganddo gonsyrn i ddeall yn well anghenion pobol leol a chymryd cyfrifoldeb i drefnu ymateb cydgysylltiedig i gwrdd â’r anghenion hynny.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 hefyd yn gosod dyletswydd ar gyrff a ariennir yn gyhoeddus i arddangos sut maen nhw’n cyfrannu at set o **nodau Llesiant cenedlaethol** trwy ddatblygiad Cynlluniau Llesiant Lleol.

Mae Cynllun Lle Cyfan ardal Llanelli Wledig a’r ffordd o weithredu wedi’u cynllunio i ddarparu hyn a chyflawni gwaith gan Bartneriaeth Cymuned Llanelli a Y Gymru a Garem yn adnabod gweithredoedd lleol i wella llesiant, a dwyn at ei gilydd olwg integredig o’r heriau sy’n wynebu ardal Llanelli a gweithredoedd i fynd i’r afael á nhw.


Prif swyddogaethau’r cynllun yw:

- Gosod allan cyfraniad ardal Wledig Llanelli tuag at nodau cenedlaethol i sicrhau datblygiad cynaliadwy.
- Helpu i hysbysu datblygiad a gweithredu Cynllun Llesiant Lleol ar gyfer Sir Gaerfyrddin.
- Darparu ffocws i Gyngor Gwledig Llanelli a phartneriaid eraill i dargedu cyflwyno gwasanaeth mewn blaenoriaethau lleol a nodwyd..
- Cefnogi monitro a chyflwyno Cynllun Datblygiad Lleol Sir Gaerfyrddin – helpu i sicrhau bod datblygiad newydd yn cael ei gefnogi gan yr isadeiledd angenrheidiol, yn cynnwys helpu i adnabod y gofynion ar gyfer cyfraniadau datblygiad (yn cynnwys CIL, S106 a chynllunio ar y safle)
- Cynorthwyo i helpu hysbysu penderfyniadau cynllunio.
- Helpu i hysbysu'r datganiad lleol a gynigir gan y Mesur Amgylchedd.
- Hysbysu gweithredu partneriaeth lleol yn sicrhau set o flaenoriaethau y cytunwyd arnynt, gweithrediadau cydlynol a hysbysu penderfyniadau anodd ynglŷn â ble y dylid targedu adnoddau yn y dyfodol.
- Cynorthwyo gyda cheisiadau allanol am gyllid - darparu tystiolaeth am anghenion a blaenoriaethau buddsoddi lleol.

- Darparu tryloywder i gymunedau lleol - adnabod lle a sut y targedir buddsoddiad lleol.
- Darparu adnodd o wybodaeth lleol a thystiolaeth yn seiliedig ar ardal- wedi'i gynllunio i helpu i hysbysu a ffurfio penderfyniadau i'r dyfodol gan bawb sydd ynghlwm gyda mynd i'r afael á materion lleol pwysig.

Datblygwyd y cynllun yn dilyn dadansoddiad manwl o ddogfennau presennol a data sy'n cynnwys ardal Llanelli Wledig ac ymgynghoriadau eang gyda chymunedau lleol trwy gyfres o weithdai cymunedol. Ategwyd hyn gan arolwg cymunedol fesul stryd a gynhaliwyd ar draws yr ardal ac arolwg ar-lein wedi'u cynllunio i adnabod blaenoriaethau lleol ar gyfer newid..







Nodwyd nifer o faterion allweddol yn y mwyafrif o ardaloedd lleol ac o ganlyniad datblygwyd nifer o ymyriadau 'Lle Cyfan' i fynd i'r afael â nhw trwy'r cynllun., mewn cysylltiad â phartneriaid lleol. Mae achos busnes ar gyfer pob ymyriad yn gosod allan sut maen nhw'n ychwanegu gwerth i unrhyw ymateb cyfredol, y canlyniadau y gellir eu mesur y byddan nhw'n eu sicrhau, sut y bydd y gymuned yn rhan o'r trosglwyddo a'r dull o gael adnoddau i bob un.

2. Lle rydyn ni nawr a lle rydyn ni am fod

Lle rydyn ni nawr

Mae ardal Llanelli Wledig tua 26.78 milltir sgwâr, gyda phoblogaeth o 22,800 ac mae'n amgylchynu canol tref Llanelli. Mae ei ffiniau yn ymestyn o Aber y Llwchwr yn y dwyrain i Borth Tywyn yn y gorllewin ac yn ymylu ar Gwm Gwendraeth yn y gogledd. Mae'r ardal yn cynnwys pentrefi ac ardaloedd Bynea, Cwmbach, Cynheidre, Dafen, Felinfoel, Pum Heol, Ffwrnes, Llwynhendy, Ponthenri, Pontiets (rhan yn unig), Pwll, Sandy a Dyffryn y Swistir (Swiss Valley.).





Mae cyfuniad o ystadegau diweddar cyhoeddus sydd ar gael ar gyfer yr ardal ac ystod eang o ymarfer ymgysylltiad cymunedol wedi helpu i hysbysu safle presennol yr ardal mewn perthynas â mesuriadau llesiant allweddol. Mae'r proffil data sy'n cefnogi'r cynllun hwn yn ystyried data lleol sydd ar gael mewn cymhariaeth â pherfformiad cyffredinol i Sir Gaerfyrddin a Chymru.

Mae'r ystadegau yn creu llun o set amrywiol iawn o gymunedau mewn sefyllfaoedd trefol, rhannol wledig a gwledig. Mae rhai cymunedau yn profi materion arwyddocaol yn nhermau amddifadedd cymharol mewn iechyd, addysg a chyflogaeth gydag eraill yn profi bodolaeth fwy cyfoethog yn gyson neu'n

uwch na'r cyfartaledd sirol mewn rhai achosion ond yn cael eu heffeithio gan leoliad ac ansawdd amgylchedd lleol.

Ymgysylltiad

Mae ystadegau yn darparu arwyddbost defnyddiol i'r materion all effeithio llesiant pobol sy'n byw yn yr ardal. Mae cyswllt uniongyrchol pellach gyda phobol leol yn helpu i brofi eu hymateb i'r data ac ystyried beth sy'n bwysig i bobol sy'n byw a gweithio yn yr ardal. Mae'r datblygiad parhaus o'r cynllun hwn felly wedi'i ymgymryd mewn cysylltiad â'r gymuned ehangach, yn cael ei hysbysu i gychwyn trwy chwilio am farn pobol ynglŷn â'r ystadegau a hefyd cadarnhau pa achosion lleol sy'n eu pryderu fwyaf a hefyd adnabod syniadau sut i fynd i'r afael â nhw.

- Cynhaliwyd naw gweithdy cymunedol yn cynnwys dros 120 o bobol.
- Cynhaliwyd arolwg ar-lein ynghyd â chyfweliadau stryd i chwilio am farn pobol leol, gyda dros 250 o arolygon unigol wedi'u cwblhau o groestoriad cynrychioliadol o bobol yn ôl rhyw/oedran a lleoliad.
- Ymgymerwyd â chyfres o gyfweliadau gyda chyflogwyr mwy lleol ar draws yr ardal.
- Ymgymerwyd â gwaith gweithdy ac arolwg wedi'i dargedu i gyrraedd grwpiau llai eu cynrychiolaeth - e.e. pobol ifanc, ymfudwyr o Ddwyrain Ewrop.

Yn y gweithdai ac fel rhan o'r arolwg mae pobol leol wedi nodi yr hoffen nhw aros yn rhan o'r datblygiad o'r Cynllun Lle Cyfan a chefnogi'r gweithredoedd sy'n codi ohono. Un o'r allbynnau mwyaf arwyddocaol o'r gwaith ymgysylltiol hyd yn hyn yw cychwyn deialog dwy ffordd strwythuredig rhwng cymunedau lleol, y Cyngor Gwledig ac asiantaethau eraill.



Ffigwr 1 – Cwwml geiriau- Materion a godwyd yn y gweithdai

Yn y gweithdai cymunedol gofynnwyd i bobol leol i nodi materion allweddol a dulliau i fynd i'r afael â nhw ac yna eu

blaenoriaethu fel grŵp. Mae'r cwmwl geiriau yn Ffigwr 1 yn crynhoi y prif eiriau a ddefnyddiwyd i amlygu'r achosion.

Mae dadansoddiad o'r gweithdai ac atebion yr arolwg hyd yn hyn yn cadarnhau y canlynol fel yr achsion sy'n pryderu pobol fwya:


- Ansawdd ac argaeledd lleoedd chwarae/gwyrdd.
- Lefel ymgysylltiad cymunedol mewn cadw'r amgylchedd yn lân.
- Llais y gymuned wrth benderfynu ar lwybrau bysiau.
- Diffyg amwynderau lleol.
- Unigrwydd, arwahanrwydd a diffyg cymdeithasu.
- Recriwtio lleol.
- Traffig/parcio.
- Canol y dref – adnewyddiad economaidd ac amgylcheddol.
- Cyfleusterau i bobol ifanc.
- Ymgysylltiad y gymuned wrth daclo problemau.
- Risg llifogydd a chynllunio isadeiledd yn gyffredinol.
- Diffyg capasiti/arian i ddatblygu, cyflwyno a chynnal cyfleusterau cymunedol.
- Diffyg cyfathrebu ac ymgysylltiad y gymuned wrth wneud penderfyniadau.

Yn ychwanegol at y materion hyn mae'r dadansoddiad ystadegol hefyd yn amlygu:

- Ystod eang o brofiadau bywyd mewn gwahanol rannau o'r ardal Wledig.
- Poblogaeth sy'n heneiddio.
- Mannau lle mae iechyd ac addysg yn creu pryder fwya.
- Heriau tai fforddiadwy.

O ganlyniad i'r dadansoddiad hwn datblygwyd cyfres o 'ymyriadau' i'w gweithredu trwy Gynllun Lle Cyfan, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw ymateb presennol neu a gynlluniwyd gan asiantaeth arall.

Nodir set gynhwysafwr o flaenoriaethau a syniadau cwbl leol yn yr atodiad 'proffilau lle' ac fe eir i'r afael â hwy mewn cysylltiad â grwpiau lleol.






Lle rydyn ni am fod

Cynllunnir yr ymyriadau arfaethedig a ddisgrifir yn y cynllun hwn i ddarparu ymatebion mesuradwy i'r materion allweddol a nodir gan y gymuned a'r data. Gyda'i gilydd maen nhw'n cefnogi cynnydd tuag at weledigaeth ehangach i ardaloedd Llanelli Wledig sy'n ceisio cyfrannu at y nodau am ddatblygiad cynaliadwy ar draws Cymru a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Gweledigaeth

Erbyn 2030 bydd ardal wledig Llanelli yn lle tecach, mwy cyfiawn, cynaliadwy a gofalgar, lle mae pobol yn teimlo'n ddiogel ac yn fwy ymgysylltiol â newid. Bydd gan bawb fynediad da i wasanaethau ac amwynderau, yn parchu ei gilydd a'r amgylchedd ac yn teimlo y gallan nhw gyflawni eu potensial.

Nodir yr ymyriadau allweddol a'r gweithrediadau a gymerwyd gan eraill i helpu i drosglwyddo'r weledigaeth hon yn yr adrannau ymateb i nodau Llesiant a ddisgrifir isod.



Llanelli o chwarel y Ffwrnes– James Dickson Innes - tua 1911

Lle Ffyniannus

Cymuned arloesol, cynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod cyfyngiadau yr amgylchedd byd eang ac felly'n defnyddio adnoddau yn effeithiol a chymesur (yn cynnwys gweithredu ar newid hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth sgilgar ac wedi'u haddysgu'n dda mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth a chyfleoedd cyflogaeth, yn caniatau pobol i gymryd mantais o'r cyfoeth a gynhyrchir trwy sicrhau gwaith gweddus.

Sefyllfa a gweithredoedd cyfredol

Tra bod Llanelli wedi gweld newid arwyddocaol yn ei heconomi lleol dros y 30 mlynedd diwethaf mae'n anghyffredin yng Nghymru ei bod wedi cadw canran uchel o'i chyflogaeth yn y sector cynhyrchu. Mae'r ardal Wledig yn cynnwys rhai cyflogwyr arwyddocaol iawn wedi'u lleoli yng nghanol y cymunedau lleol ac sy'n cynnig cyfleoedd gwaith lleol. Mae yna dir hefyd wedi'i glustnodi ar gyfer datblygiad cyflogaeth pellach mewn rhai rhannau o'r ardal wledig. Mae pocedi o ddiweithdra ac anactifedd economaidd yn parhau'n bryder, fel y cynnydd gan rai pobol ifanc mewn addysg yn yr ysgolion uwchradd, Mae'r rhaglen Cymunedau'n Gyntaf yn gweithio'n llwyddiannus mewn rhai ardaloedd yn cynnig cefnogaeth cyflogaeth ac addysg. Mae'r Cyngor Sir, Hyfforddiant LRC a Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chwmnïau lleol i helpu i gefnogi ei datblygiad mewn recriwtio yn y dyfodol. Mae adborth oddi wrth gyflogwyr yn nodi rhai diffygion sgiliau sy'n gysylltiedig â diffyg/cost cymwysterau swyddi penodol a pheth potsian o lafur sgiliau rhwng cwmnïau yn y sector cynhyrchu. Mae arallgyfeirio pellach yn yr economi, cyflogaeth wedi'i dargedu ac ymdrechion hyfforddiant a gwell cyswllt rhwng ysgolion. Coleg Sir Gar a chyflogwyr lleol yn weithredoedd allweddol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd yn y dyfodol.

Ymyriad arfaethedig

Gwaith Llanelli- Mae rôl asiantaethau cyflogaeth mewn darparu llwybrau ar gyfer cyflogaeth wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf mewn ystod o ddiwydiannau. Mae ychydig, serch hynny, yn gweithredu gydag amcanion cymdeithasol, yn targedu pobol lleol a chefnogi eu datblygiad sgiliau parhaus. Byddai Gwaith Llanelli yn asiantaeth recriwtio a hyfforddiant cymdeithasol dielw yn gweithio gyda neu'n dod yn rhan o Hyfforddiant LRC. Byddai'r asiantaeth yn sefydlu perthynas agos gyda Chanolfan Gwaith a Chymunedau'n Gyntaf a pherthynas weithredol gyda chyflogwyr allweddol. Prif amcanion yr asiantaeth fyddai cefnogi cynnydd i fyny ar hyd ysgol sgiliau er mwyn cael mynediad i well cyflogau ac amodau, a chysylltu pobol leol á swyddi lleol. Yn ychwanegol at hyn, byddai Gwaith Llanelli yn cymryd rôl fwy rhagweithiol wedi'i ganolbwyntio'n lleol wrth drefnu perthynas rhwng Ysgolion uwchradd/coleg/BID/a chyflogwyr mawr yn cynnwys gweithdai, cyflwyniadau a hyrwyddo entrepreneuriaeth.

Pwrcasu cymunedol- Darparu dull i fusnesau a chymunedau i gydweithio i sicrhau bargeinion gwell mewn cyflenwad ynni, band llydan a rheolaeth gwastraff.

Partneriaid – Byddai Hyfforddiant LRC yn bartner allweddol ac o bosib yn gyyfrifol am gynnal, Cymunedau'n Gyntaf – cleientiaid clybiau swyddi, Canolfan Gwaith, Ysgolion uwchradd, Un Sir Gar (Yr Hwb) a Choleg Sir Gar.

Mesuriadau –Lleihad mewn diwethdra uwch na'r cyfartaledd a dim cyfraddau cymwysterau Llwynhendy, Felinfoel a Dafen.

Blaenoriaethau Lleol – Gestamp a Calsonic, Owens Logistics a Gwesty Parc y Strade.

Lle cydnerth

Lle sy'n cynnal a gwella amgylchedd bio-amrywiaeth, naturiol gyda systemau-eco gweithredol sy'n cefnogi cadernid cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r capasiti i addasu.

Sefyllfa a gweithredoedd cyfredol

Fel tref arfordirol mae Llanelli yn wynebu heriau arbennig wrth gwrdd â bygythiad newid hinsawdd. Mae ardaloedd y Cyngor Gwledig wedi profi llifogydd yn y gorffennol ac fe'u dynodir o fod mewn perygl yn y dyfodol. Nododd ymgynghoriadau cymunedol bryderon ynglŷn â chynnal a chapasiti mesuriadau atal llifogydd. Mae'r Cyngor Tref yn datblygu Cynllun Argyfwng Cymunedol sy'n dwyn at ei gilydd asiantaethau statudol a chymunedau lleol i roi yn eu lle gyfrifoldebau clir a gweithredu lleol.

Codwyd amrywiaeth o faterion lleol hefyd ynglŷn â mannau gwyrdd ac agored yn amrywio o gynnydd yn y tâl arfaethedig ar gyfer eu defnyddio, datblygu mannau diffaith ar gyfer gwella bio amrywiaeth, a throsglwyddo asedau ac ansawdd darpariaeth bresennol; y cyfan yn pwyntio at yr angen am ddull arloesol wrth fynd i'r afael â'r mater hwn.

Ymyriadau arfaethedig

Wardeiniaid Llifogydd Cymunedol

Mae Gwardeiniaid Llifogydd Cymunedol yn aelodau o'r gymuned leol - unigolion, Cynghorau Tref a Chymuned, Gwarchod y Gymdogaeth neu unrhyw grŵp cymunedol lleol, ac fe'u cefnogir gan awdurdodau lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru (NRW). Bydd y gwirfoddolwyr a enwebwyd yn cofrestru gyda'r Cyngor ac yn dod yn rhan o Gynllun Llifogydd Cymunedol ar gyfer eu hardal. Fe fyddan nhw hefyd yn derbyn rhybuddion am lifogydd yn uniongyrchol oddi wrth NRW ac yn trosglwyddo'r rhain i'w cymdogion.

Ymddiriedolaeth Datblygiad Mannau Agored a Gwyrdd Llanelli (LOGSDT)

Gall ymddiriedolaethau fel hwn ddefnyddio mwy o ryddid i reoli llwyddiant hir dymor parciau a mannau eraill fel sefydliadau elusennol di-elwsy'n trosglwyddo (NPDOs). Byddai codi arian trwy ddefnyddiau codi arian a chynhyrchu incwm, rheoli ymgysylltiad cymunedol a chynnal ansawdd yn swyddogaethau allweddol.

Partneriaid – Cyngor Tref, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cynefin, gwasanaethau Argyfwng, Fforwm Llifogydd Llanelli, Adran yr Amgylchedd Cyngor Sir Caerfyrddin.

Mesuriadau - % o strydoedd/ardaloedd o dan ofal gwardeinaid, gwella'r defnydd o fannau gwyrdd.

Blaenoriaethau Lleol – Llifogydd - Bynea, Dafen, Felinfoel, Ffwrnes, Pwll **Mannau Gwyrdd –** Bynea – gwarchodfa natur Gwndwn Mawr, caeau chwarae Ponthenri, parc plant y Pwll, Swiss Valley – plant hŷn, Felinfoel – ardal chwarae plant iau, Parc Dafen.

Lle Iachus

Man lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobol yn cael ei fwyhau a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

Sefyllfa a gweithredoedd cyfredol

Mae proffil ystadegol yr ardal yn nodi rhai gwahaniaethau arwyddocaol yn amodau iechyd gwahanol wardiau. Mae cyflyrau cronig megis asthma, arthritis a chlefyd y galon yn 50% yn uwch na'r cyfartaledd mewn rhai wardiau. Mae'r boblogaeth sy'n heneiddio ar draws yr ardal yn rhoi pwysau arbennig ar wasanaethau gofal sylfaenol ac eilaidd yn Llanelli a chydnabyddir fod gwaith ymyrraeth ochr yn ochr â'r gymuned yn gwbl hanfodol i wella canlyniadau. Mae canlyniadau'r arolwg cymunedol hefyd yn nodi enghreifftiau o bobol sy'n teimlo'n ynysig, yn rhannol oherwydd eu lleoliad ond hefyd oherwydd y diffyg cyfle i gymdeithasu gydag eraill, yn enwedig yn ystod y dydd.

Effeithir ar les meddyliol pobol gan gyflwr yr amgylchedd lleol, amlygwyd pryderon cyson ynglŷn â baw cŵn, sbwriel a thipio anghyfreithlon ar draws yr ardal yn y gweithdai a'r arolygon cymunedol.

Ymyriadau arfaethedig

Cymuned ofalgar – cydweithrediad ardal leol
Cefnogi cynlluniau gofal cymunedol Cyngor Sir Caerfyrddin a'r Bwrdd Iechyd Lleol gyda rhwydwaith cryfach o ofal, cymorth a sefyllfaoedd cymdeithasol yn y gymuned.

Hyrwyddo'n weithredol y defnydd o ganolfannau cymdeithasol fel mannau gwybodaeth a chlinigau iechyd allanol ynghyd â darparu mwy o weithgareddau hamdden yn ystod y dydd wedi'u datblygu mewn cysylltiad â chyfeillion stryd lleol i gefnogi ymyriad cynnar.

Cadw Llanelli'n Daclus

Rhaglen Balchder Yn y Gymuned eang yn cynnwys Credydau Amser, glanhau'r gymuned, addysg a gorfodaeth.

Adeiladu ar waith a wnaed gan Cadw Cymru'n Daclus a thimau Trefi Taclus CSC/Amddiffyn yr Amgylchedd i drosglwyddo effaith lleol ehangach, sicrhau mwy o berchnogaeth ac ymgysylltiad lleol. Eir i'r afael â Glasu, Yn eu blodau, mannau brwnt, baw cŵn, tipio anghyfreithlon o dan frand parhaus cyffredinol ar gyfer gweithredu.

Partneriaid – tím lleol y Bwrdd Iechyd Lleol, pwyllgorau neuaddau cymunedol, ysgolion, grwpiau gwirfoddol a chymunedol lleol.

Mesuriadau cynnydd – Cynnydd yn y nifer o weithgareddau dydd mewn neuaddau cymunedol, glanhau yn y gymuned.

Blaenoriaethau Lleol – Pob ardal – Bynea, Dafen, Ionydd Ffwrnes, Parc Arfordirol y Mileniwm/Pwll, caeau Ponthenri.

Lle Mwy Cyfartal

Lle sy'n galluogi pobol i gyflawni eu potensial does wahaniaeth beth yw eu cefndir neu amgylchiadau (yn cynnwys eu cefndir neu amgylchiadau economaidd-gymdeithasol).

Sefyllfa a gweithredoedd cyfredol

Mae ardal Llanelli Wledig yn cynnwys ystod eang o bobol sy'n profi amgylchiadau economaidd cymdeithasol gwahanol. Mewn ardal sydd â chyfartaledd uwch nag arfer o amddifadedd mae ystod o raglenni presennol yn targedu eu hymdrechion i helpu i gau'r bwlch rhwng y cymunedau tlotaf a chyfoethocaf. Mae Cymunedau'n Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg i gyd yn gweithredu yn rhai o wardiau'r ardal Wledig gan gynnig rhaglenni i daclo mynediad at swyddi, gwella iechyd ac addysg. Gwelir diffyg mynediad i rwydwaith ehangach o gysylltiadau cymdeithasol a gwaith fel rhwystr pwysig i daclo anghydraddoldeb. Mae agosatrwydd cymunedau gyda mwy o gyfalaf cymdeithasol ochr yn ochr ag ardaloedd mwy amddifad yn galluogi'r rhwydweithiau hyn i ddatblygu dros yr ardal. Mynegodd ardaloedd hefyd bryderon arbennig ynglŷn ag argaeledd darpariaeth gwasanaeth ieuenctid.

Ymyriadau arfaethedig

Ehangu rhaglen cyfeillion stryd/pentref

Buddsoddi mewn creu rhwydwaith o gysylltiadau lleol ar gyfer gwella cyngor a chymorth anffurfiol a chyfeirio at raglenni cymorth gan ddysgu oddi wrth y dull peilot sy'n gysylltiedig â Rhaglen Credydau Amser.

Rhaglen datblygu cyfleusterau leuenctid

Arolwg o ddarpariaeth a rhaglen ddatblygu gwasanaethau leuenctid - cyfalaf a refeniw - a gweithio gyda chymunedau i ddatblygu ymatebion mewn ardaloedd a nodir sydd mewn angen.

Mynd i'r afael â chanfyddiad diffyg cyfleusterau - awyr agored (gweler Ymddiriedolaeth Mannau Gwyrdd - tudalen 11) a dan do mewn lleoliadau penodol a phryderon ynglŷn â defnyddio cyffuriau ac ymddygiad gwrth gymdeithasol, a amlinellir ar dudalen 14.

Partneriaid – Cymunedau'n Gyntaf, Spice, Cyngor Sir Caerfyrddin.

Mesuriadau cynnydd – Nifer o fentrau cymorth ar draws y cymunedau.

Blaenoriaethau Lleol – Cysylltiad ag Ymddiriedolaeth Mannau Agored a Gwyrdd – pryderon penodol yn Llwynhendy, Pum Heol.

Lle Cydlynol

Cymunedau prydferth, dichonadwy ac wedi'u cysylltu'n dda.

Sefyllfa a gweithredoedd cyfredol

Mae yna ffocws dealladwy ar wella rhagolygon canol y dref fel hwb i gyfle economaidd a mynediad i wasanaeth. Mae datblygiad yr ardal adwerthu, bwyd a pharciau hamdden ar gyrion y dref hefyd yn effeithio ar brydferthwch a dichonoldeb canolfannau ardal a phentref. Yn yr ardaloedd mwy gwledig mae mynediad i siopau lleol a gwasanaethau hamdden wedi'u cyfyngu'n ddirfawr gyda chynigion o siopau cymunedol ac amwynder lleol e.e. swyddfeydd Post yn cau oherwydd diffyg defnydd lleol.

Mae lleihad yn y mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus yn codi o newidiadau diweddar i lwybrau teithio bysiau yn atgyfnerthu ymhellach y ddibyniaeth ar deithio mewn car i gael mynediad i wasanaethau sylfaenol gyda phryderon o ganlyniad o gwmpas parcio i drigolion, tagfeydd, ansawdd aer a goryrru.

Mae pryderon ynglŷn â'r defnydd o gyffuriau yn gyhoeddus ac ymddygiad gwrth gymdeithasol mewn rhai ardaloedd yn galw am well ymateb.

Ymyriadau arfaethedig

Rhwydwaith Siopau Cymunedol Llanelli

Dysgu oddi wrth lwyddiant mewn mannau eraill - siopau/caffis cymunedol - mae'r ymyriad hwn yn cynnwys targedu sefydlu rhwydwaith o amwynderau cymunedol di-elw mewn ardaloedd penodol gan ddefnyddio adeiladau sydd ar gael. Dylai dull rhwydwaith arwain at economïau o raddfa mewn prynu a rhannu elw.

Bydd Ariannu RDP a chymorth datblygu Sefydliad Plunkett yn ffocws er mwyn rhoi cychwyn ar bethau.

Gwybodaeth am newidiadau bysiau ac ymateb trafnidiaeth leol integredig

Cynhyrchu a chyhoeddi crynodeb o newidiadau diweddar ac esboniad o wneud penderfyniadau.

Cynllun trafnidiaeth integredig gymunedol (seiclo, cerdded a thrafnidiaeth gyhoeddus) gydag opsiynau ar gyfer gwella gwasanaeth.

Partneriaid – Grwpiau cymunedol, pobol leol, Sefydliad Trafnidiaeth Cymunedol.

Mesuriadau cynnydd – Cynnydd yn y gwariant lleol.

Blaenoriaethau Lleol - Bynea, Pum Heol, Maengwynne, Ponthenri a Pwll.

Diwylliant Bywiog ac Iaith Gymraeg sy'n Ffynnu

Lle sy'n hyrwyddo ac amddiffyn diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg ac sy'n annog pobol i fod ynghlwm wrth y celfyddydau a chwaraeon a hamdden.

Sefyllfa a gweithredoedd cyfredol

Mae cymunedau yn ymdrechu i greu'r syniad o ofal i'r lle a'i gilydd trwy weithredu gwirfoddol ar y cyd. Mae pwysau bywyd modern yn golygu fod dpd o hyd i amser i fod yn rhan o'r gymuned leol a chefnogi ei datblygiad cyfunol anodd. Mae actifyddion lleol yn cwyno am y diffyg perchnogaeth cymuned ehangach o faterion lleol a gweithredu i fynd i'r afael â nhw.

Er bod lleihad sylweddol wedi bod yn y nifer o siaradwyr Cymraeg yn yr ardal yn ystod y degawdau diwethaf, mae yna nifer fawr o bobol sy'n deall peth Cymraeg mewn dull goddefol ond fyddai'n ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn cynnig her i'w hannog hwy i newid y wybodaeth oddefol honno yn ddefnydd gweithredol beth bynnag fo eu gallu. Gall adeiladu ar lwyddiant cynnal yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2014 a arweiniodd at hyrwyddo'r defnydd o'r iaith ym musnesau a gweithleoedd canol y dref gael ei ymestyn allan i'r ardaloedd mwy gwledig.

Ymyriadau arfaethedig

Rhaglen Credydau Amser - Archwilio potensial ehangu'r Rhaglen Credydau Amser yn wardiau'r ardal Wledig - cynyddu nifer y gwirfoddolwyr i fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol yn gyfnewid am ostyngiadau wrth ddefnyddio cyfleusterau canol y dref e.e, Partneriaeth Tref Llanelli - prosiect cyfeillion stryd- dull ased i ddatblygiad cymuned leol micro.

Hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg- Defnydd strwythuredig gyda ffocws arbennig ar yr iaith Gymraeg wrth weithredu cynllun y lle cyfan.

Defnyddio neuaddau/hwb cymunedol i wella dysgu ac arfer yr iaith.

Recriwtio gweithredol gwirfoddolwyr Cymraeg i gyflwyno ymyriadau'r cynllun e.e. rhwydwaith siopau'r gymuned, bydis stryd, gwybodaeth am fysiau.

Partneriaid – Cyngor Sir Caerfyrddin, Spice,Cyngor Tref Llanelli, Ardal Gwella Busnesau Llanelli, Menter Cwm Gwendraeth Elli, ysgolion cynradd (Ysgol Dewi Sant, Ysgol y Ffwrnes, Ysgol Brynsierfel) ac Ysgol Gyfun y Strade-Ysgol Uwchradd.

Mesuriadau cynnydd – Gwell defnydd o'r iaith a chynnydd mewn gwirfoddoli.

Blaenoriaethau Lleol – Mentrau Credydau Amser mewn ardaloedd newydd, ardaloedd gyda chanran uchel o siaradwyr Cymraeg.

Ein Lle yn y Byd

Llanelli cyfrifol byd eang. Lle sydd, pan yn gwneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, yn cymryd i ystyriaeth os yw gwneud rhywbeth o'r fath yn gallu gwneud cyfraniad positif i lesiant byd eang a'r capasiti i addasu newid (er enghraifft, newid hinsawdd).

Sefyllfa a gweithredoedd cyfredol

Mae'r Cynllun Lle Cyfan yn cael ei yrru gan faterion ynglŷn â chymunedau lleol yn 2015. Tra bod ymwybyddiaeth gyfyng o heriau tymor hir yn y dyfodol-poblogaeth yn heneiddio, newid hinsawdd, map yr economi'n newid - mae trefniadau trefniadaeth a gwleidyddol presennol yn tueddu i ffocysu ar anghenion cyfredol heb gymryd i ystyriaeth anghenion Cenedlaethau'r Dyfodol. O ganlyniad i lawer o benderfyniadau unigol e.e. adeiladu neu beidio, sicrhau is adeiledd priodol, lleihau darpariaeth gwasanaeth penodol yn cael eu gwneud heb gymryd i ystyriaeth yn llawn eu heffaith hir dymor. Mae cymunedau a chymdeithasau lleol yn ei chael hi'n anodd asesu penderfyniadau yn erbyn gweledigaeth o ddyfodol posibl.

Ar yr un pryd mae angen mwy o wybodaeth gymunedol am fuddion positif mabwysiadu ymddygiad 'gwyrdd'.

Ymyriadau arfaethedig

Profi'n penderfyniadau yn y dyfodol - Wrth weithio gyda'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus arfaethedig, y Cyngor Tref, y Cyngor Sir, rhaglen Cymunedau'n Gyntaf a'r Ardal Gwella Busnes arfaethedig fe fyddwn yn mabwysiadu'r egwyddorion canlynol wrth asesu ein penderfyniadau i sicrhau datblygiad economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

- **Tymor hir** - cydbwyso anghenion byr dymor gyda'r angen i amddiffyn ein gallu i gwrdd ag anghenion tymor hir
- **Ataliad** – Gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu fynd yn waeth
- **Integreiddio** - Sut mae ein hamcanion cyfunol i drosglwyddo cefnogaeth llesiant yn ategu ei gilydd
- **Cydweithio** – gweithio gyda'n gilydd i wneud pethau'n well
- **Ymgysylltiad** - ymgysylltu pawb sydd â diddordeb yn ein nodau a gwneud yn siŵr bod gan ein cymunedau gwahanol lais cyfartal

Hyrwyddo ffyrdd o fyw gwyrdd- Dwyn at ei gilydd a hyrwyddo'r buddion i'r gymuned o fyw bywydau gwyrddach- amlygu awgrymiadau ymarferol i sicrhau arbedion cost a buddion iechyd wrth leihau'r defnydd o ynni, cynyddu ailgylchu, cerdded a seiclo.

Partneriaid – Cyngor Sir Caerfyrddin, Bwrdd Gwasanaeth Lleol/Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus, Cyngor Tref Llanelli, Ardal Gwella Busnesau, Cymunedau'n Gyntaf, Cynnal Cymru (Sustain Wales).

Mesuriadau cynnydd – Adroddiada blynyddol ynglyn a chynnydd gtyda Chynllun Lle Cyfan a lledu egwyddorion Datblygiad Cynaliadwy.

Blaenoriaethau Lleol – Fel sydd wedi'i nodi yn y proffilau lleoedd.

3. Gwneud iddo ddigwydd a gwirio ei fod yn gweithio

Trosglwyddo - Fel rhan o'r cynllunio ar gyfer cyflwyno'r Cynllun Lle Cyfan**,** mae'r Cyngor wedi trefnu **swyddog dynodedig i weithio** ar y cyd gyda grwpiau cymunedol ac asiantaethau eraill i ddatblygu a throsglwyddo'r ymyriadau arfaethedig. Mae Atodiad C hefyd yn nodi sut y mae'r ymyriadau arfaethedig yn cysylltu ag amcanion strategol y Cyngor a chynlluniau trosglwyddo gwasanaeth.

Bydd y cynllun hefyd yn ceisio ategu'r gweithredu arfaethedig a gymer **Cyngor Tref Llanelli** yn ei gynllun datblygu cymunedol.

Mae **Partneriaeth Gymunedol Llanelli** yn grŵp o ystod eang o gynrychiolwyr wedi'u tynnu ar draws y dref ac ardaloedd gwledig fydd gyda'i gilydd yn ceisio gwella llesiant lleol. Yn amodol ar fwy o ymgysylltiad gan grwpiau ar draws yr ardal Wledig, gall y bartneriaeth yma o bosib gynnig cyngor pellach neu ddulliau sydd eu hangen i gyrraedd nodau Llesiant a chydweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus newydd er lles y dref ac ardaloedd gwledig.

Rydyn ni hefyd yn ystyried datblygu dau ddull pellach o alluogi trosglwyddo cyfunol:

Ymddiriedolaeth Datblygu Llanelli a'r Cylch – menter gymdeithasol di-elw a sefydlwyd i gynnig cymorth i grwpiau lleol, cynnal/cefnogi cynigion lleol ar gyfer trosglwyddo asedau, datblygiad ariannu, cynllunio busnes a ffyrdd newydd o gwmpas trosglwyddo prosiectau llesiant cymunedol yn ddichonadwy. Gallai hwn hefyd weithredu fel corff ymbarel i Waith Llanelli ac Ymddiriedolaeth Mannau Agored a Gwyrdd.

Consortiwm Llanelli – Gan adeiladu ar y dull Partneriaeth Llanelli bydd y consortiwm yn ceisio cynnwys cynrychiolwyr craidd o gynghorau tref a chymuned yn ogystal a busnesau a grwpiau cymunedol, byddai ynghlwm wrth gysylltiad rheolaidd a rhwydwaith eang o aelodau cymunedol o'r ardal Wledig.

Ei brif ffocws fyddai o gwmpas cyfathrebu cynnydd gydag ymyriadau cynllun ac annog ymgysylltiad cymunedol ehangach i gynllunio ymyriadau.

Gall hefyd berfformio swyddogaeth cysgodol/peilot yn y tymor byr wrth ddisgwyl cynigion Llywodraeth Cymru i ddiwygio trefn lywodraethol lleol i brofi sut y gallai trefniadau o'r fath weithio'n ymarferol.

Monitro

Bydd adroddiad ar bedwar mesur allweddol o gynnydd ar gyfer y Cynllun Lle Cyfan yn cael ei gyflwyno'n flynyddol i'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol/Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus:

1. Cynnydd yn erbyn cerrig milltir ymyriadau mesuriadau a nodir yn y cynllun gweithredu;
2. Cynnydd yn cyfrannu at ddangosyddion Datblygiad Cynaliadwy cenedlaethol o dan arolwg ar hyn o bryd;
3. Gweithdai ardaloedd blynyddol i ystyried cynnydd ar lefel lleol:
4. Arolygon cymunedol bob tair blynedd yn mesur cynnydd yn erbyn yr ymatebion gwaelodlin a ddefnyddiwyd i greu'r cynllun hwn.

Atodiad A – Proffilau Lle

BYNEA



Bynea yw un o'r wardiau mwyaf yn yr ardal Wledig gyda phoblogaeth o 4,384. Mae wedi gweld cynnydd sylweddol yn y boblogaeth a datblygiad tai yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac y mae yna ganfyddiad fod isadeiledd ffisegol wedi ymdrechu i ymdopi â'r cynnydd. Mae'r ardal wedi'i lleoli'n agos at yr arfordir ac yn ymestyn hyd at 2km i'r mewndir ac mae'n cynnwys pedwar cymuned benodol gyda mwy o ddatblygiadau tai hunangynhaliol newydd. Mae sefydlu'r syniad o gydlyniad cymunedol yn profi'n anodd ac nid yw'n cael ei helpu gan absenoldeb amwynderau lleol lle gall pobol gwrdd. Mae yna ysgol gynradd dda a neuadd gymunedol a ddefnyddir yn helaeth gan grwpiau lleol. Fel sy'n nodweddiadol o nifer o wardiau ardal Wledig, mae Bynea yn gartref i rai o gyflogwyr mwyaf Llanelli ac yn cynnwys nifer sylweddol o safleoedd 'tir llwyd' bach a mawr. Mae data ac ymgynghoriadau wedi codi'r pryderon ynglŷn â pherygl llifogydd a diffyg ansawdd mannau gwyrdd. Mae yna gynigion lleol uchelgeisiol i ddatblygu gwarchodfa natur a Felodrom.

Materion

- Perygl Llifogydd
- Capasiti carthffosiaeth a gorlifo cyfnodol
- Lleoliad ac effaith datblygiad tai newydd a phwysau parhaol am yr un fath eto
- Mynediad ffordd i dai newydd/diogelwch
- Beth yw'r cynllun ar gyfer Bynea?
- Diffyg ansawdd amgylchedd lleol e.e. mewn cymhariaeth â Casllwchwr
- Parseli o dir hanner diffaith- gwerthiant y cyngor am dderbyn
- Datblygiad wedi torri mynediad i'r traeth i'r gymuned
- Fforwm Bynea yn effro i wrthwynebu'r datblygiad newydd

Syniadau

Blaenoriaeth 1 – Datblygiad man gwyrdd **yn** Gwndwn Mawr

Blaenoriaeth 2 – Siop Gymunedol- o bosibl gyferbyn â'r maes parcio ym Mharc y Mileniwm

Blaenoriaeth 3 – Cyfartal – Cyfleusterau Ieuenctid awyr agored a digwyddiadau cymunedol

- Teithiau Cerdded Natur - Cynllun Bynea
- Felodrom - Gorsaf Bwmpio well
- Gwell cyfathrebu parthed cynllunio
- Tawelu traffig, adolygiad croesfan a gorfodaeth gor-yrru
- Cynnal a chadw llwybrau troed
- Cysylltu mannau diweithdra a chyflogaeth newydd e.e. Y Giat.

DAFEN



Mae **Dafen** yn un o'r cymunedau sefydledig hynaf yn yr ardal Wledig gyda phoblogaeth o 3,557. Mae'n gartref i ysbyty'r Tywysog Phillip, sawl ysgol gynradd a dwy ysgol uwchradd. Mae nifer o gyflogwyr arwyddocaol wedi'u lleoli yng nghanol y gymuned yn rhannol oherwydd ei fod yn agos i'r A4138. Mae yma hefyd ardaloedd eang o dir heb ei ddatblygu yn ymylu ar yr ochr ddwyreiniol o'r ardal gyda'r potensial i gynnig cyfleoedd datblygu cyflogaeth bellach. Mae gan yr ardal y ganran uchaf o bobol rhwng 45-64 oed ac o gyfuno hyn â'r rhai dros 65 bydd gofynion y grŵp hwn yn fater arwyddocaol yn lleol yn yr 20 mlynedd nesaf. Roedd materion draenio yn bryder mawr a nodir yr ardal fel yr un sydd â'r perygl uchaf o lifogydd. Mae yna rai pocedi o faterion iechyd difrifol e.e. canser a phryderon ynglŷn â gofal am yr amgylchedd lleol. Daeth anghenion pobol ifanc yn nhermau cefnogaeth gyrfau a mynediad i gyflogaeth o ansawdd i'r amlwg mewn ymgynghoriadau lleol.

Materion

- Pobol Ifanc/Lefel Cyflogau- cynnydd i'r dyfodol
- Gwybodaeth am gymorth – hawliau/cytundebau
- Cysylltiadau ysgol a chymuned- cerddoriaeth dda, angen bod yn well ar chwaraeon
- Absenoldeb plant yn cymryd rhan mewn chwaraeon tu allan i'r ysgol
- Unigrwydd poblogaeth Hŷn – gweithgareddau i bobol hŷn yn ystod y dydd e.e. canolfan tai cysgodol – rhywbeth mwy arloesol na chlwb cinio
- Cyswllt parhaus â'r heddlu
- Iechyd– canser

Syniadau

Blaenoriaeth 1 – Grwpiau chwaraeon cymunedol a chysylltiad ysgol – defnydd o'r parc yn ystod y dydd/cyfleusterau, o bosibl yn defnyddio myfyrwyr Coleg Sir Gar
Blaenoriaeth 2- Menter balchder cymunedol i daclo ansawdd amgylchedd lleol – Credydau Amser i gefnogi gofal cymdeithasol/gweithgaredd anffurfiol yn ystod y dydd
Blaenoriaeth 3 – Cefnogaeth gyrfau– cyngor am arian a hawliau ynghyd â gwybodaeth am gyfleoedd lleol e.e. peirianneg

- Academi Sgiliau Bryngwyn– cefnogaeth lleoliad FE
- Perthynas â phrosiectau Cymunedau'n Gyntaf –
- Troi ardaloedd diffaith yn wyrdd – Pwll Dafen – ail agor mynediad

FELINFOEL



Mae **Felinfoel** yn un o'r wardiau lleiaf yn yr ardal Wledig gyda phoblogaeth o 2.095. Mae gan y lle boblogaeth iau na'r cyfartaledd ac yn wynebu heriau arwyddocaol yn nhermau iechyd, addysg a diffyg gwaith. Mae rhaglen Cymunedau'n Gyntaf yn weithredol yn yr ardal ac yn gweithio gydag asiantaethau allweddol i ddarparu help a chefnogaeth ar sail targed i bobol leol. Defnyddir yr ardal fel adnodd gan gymunedau o gwmpas wedi'i ganoli ar faes hamdden ardderchog a chanolfan adnoddau cymunedol, sy'n berchen i'r Cyngor Gwledig. Mae Partneriaeth Felinfoel yn dwyn at ei gilydd grwpiau lleol i wella rhagolygon ar gyfer yr ardal. Mae'r ardal yn gartref i ddau o gyflogwyr cynhyrchu mwyaf Llanelli.

Roedd ansawdd yr amgylchedd lleol a maint y traffig lleol yn ddau fater allweddol a gododd o'r arolwg cymunedol yn Felinfoel.

Mae'r hanes lleol yn gryf iawn gydag un o'r bragdai hynaf yn y DU yn dwyn enw'r pentref a safle'r felin hanesyddol yn denu ymwelwyr sy'n mynd heibio.

Materion

- Parc Howard
- Parcio yn Heol Hafan – 3 ysgol ar un heol
- Materion gyda teithwyr – plant/anifeiliaid
- Sbwriel a baw ci
- Ardal Chwarae- i rai bach dan 5oed

Syniadau

- Ardal chwarae i blant

GLYN (Cynheidre, Ponthenri, (rhan o) Pontiets, Pum Heol)



Pum Heol – Mae 'r pryderon allweddol yn y gweithdy cymunedol ac ymatebion yr arolwg yn cynnwys:

- Cyfyngder blanced cyflymdra 50mya- pam?
- Dichonolrwydd neuadd – tariff bwydo i mewn- solar?
- Cymhareb cyfleusterau yn erbyn tai newydd – lefel o 106 yn cael ei wario'n lleol?
- Band llydan cyflymach- araf yn yr oriau brig
- Baw ci a sbwriel – angen gorfodaeth bellach
- Absenoldeb gwasanaethau allweddol/ Swyddfa bost a siop
- Tipio anghyfreithlon
- Absenoldeb balchder- pentref gorau yn 1983!
- Trafnidiaeth – amlder 194
- Diffyg ystadegau yn benodol ar Bum Heol a Chynheidre
- Mynediad i gefnogaeth hyfforddiant a chyflogaeth yn anodd
- Gweithgareddau i'r henoed yn ystod y dydd

Mae **Glyn** yn cynnwys rhai o'r cymunedau mwyaf gwledig yn yr ardal Wledig gyda phoblogaeth o 2,154. Mae'n cynnwys pentrefi Cynheidre, Pum Heol, Ponthenri, a rhan ddeheuol Pontiets. Mae gan yr ardal boblogaeth arwyddocaol o dan 45 oed a chanran uwch ar gyfartaledd o siaradwyr Cymraeg na gweddill ardal Llanelli Wledig. Mae ei leoliad gwledig yn atyniad ond caiff ei herio gan fynediad trwy drafnidiaeth gyhoeddus ac nid oes ganddo ddigon o boblogaeth i gynnal y galw am amwynderau a gwasanaethau allweddol.

Ponthenri/Pontiets – Mae 'r pryderon allweddol yn y gweithdy cymunedol ac ymatebion yr arolwg yn cynnwys

- Diffyg cyfleusterau/amwynderau
- Ansawdd a defnydd caeau chwarae o ganlyniad
- Ceudyllau
- Toriadau gwasanaethau bysiau
- Diffyg siopau
- Baw ci- ymddygiad gwrth gymdeithasol
- Democratiaeth lleol – diffyg atebolrwydd- ddim yn teimlo'n rhan o ardal Cyngor Gwledig Llanelli
- Dydy Glyn ddim yn golygu dim byd
- Pwy yw'r Cynghorwyr a beth maen nhw'n ei wneud
- Dim addysg i oedolion
- Ynni cymunedol/Wi fi
- Dylai loriau graean fynd ymhellach i mewn i'r ystad
- Angen sylw ar y gysgodfan bysiau ar y sgwar
- Siop Bryn yn hyllbeth
- Llwybr troed o dan y bont- llifogydd
- Cerdded/diogelwch/ goleuadau Myrtle Hill oherwydd newid gwasanaeth bysiau- gor yrru – hefyd heibio'r ysgol
- Bysiau – gwasanaeth gwael a dim meddyfga yn y pentref

- Clwb Ieuenctid
- Diffyg cyfleusterau lleol
- Cyfathrebu- beth sy'n digwydd/ble
- Parcio – ysgol/staff
- Parc –draeniad, llwybrau, siglenni, ardal chwarae i blant bach
- Datblygiad llinol y pentref
- Mabwysiadu datblygiadau- casglu biniau
- Diffyg tai fforddiadwy yn golygu teuluoedd yn gadael- effaith ar y defnydd o r iaith- mwy o ffocws ar anghenion teuluoedd ifanc- rhieni a phlant yn yr ysgol leol
- Unman i bobol gwrdd yng Nghynheidre
- Lle a digwyddiadau i ddwyn pobol at ei gilydd
- Datblygu marchnata gweithgareddau yn yr ardal
- Gor-yrru

Syniadau Ponthenri

Blaenoriaeth 1– Pitsh y gellir ei ddefnyddio ac ail gynllunio/ail ddatblygu ardal parc ehangach ar gyfer defnydd y gymuned ehangach- campfa awyr agored, chwarae, MUGA

Blaenoriaeth 2 - Ymgyrch lleol ynglŷn â baw ci- arwyddion, addysg, bagiau, gorfodaeth

Blaenoriaeth 3 - Cyfartal - Adfer gwasanaeth bysiau- hwb pentref cymunedol - gweithgareddau ar ôl ysgol

- Siop gymunedol
- Cymdeithas pentref
- Cymdeithas bentref i gael gwell llais- Credydau Amser- cychwyn carnifal
- Hyfforddiant LRC i gael gwell cysylltiadau lleol
- Defnydd helaethach o lyfrgell symudol
- Ymchwil i ynni cymunedol a Wi-fi cymunedol
- Tawelu traffig
- Adrodd yn benodol i Bonthenri

- Dim cyfleusterau i bobol ifanc
- Dim clwb ar ôl ysgol
- Dim byd i ddwyn pobol at ei gilydd

Syniadau Pum Heol


Blaenoriaeth 1– Lleoedd parcio i staff a rhieni yn y safle nesaf at yr ysgol- her perchnogaeth


Blaenoriaeth 2 – Cyfleoedd siopa lleol – menter gymunedol i ail agor

Blaenoriaeth 3 –Defnydd lleol o Facebook/twitter/tudalen we gymunedol

- Ceir y sir i gael mynediad i apwyntiad iechyd
- Gwasanaeth yn null Bwc-a-bus
- Codi tâl am barcio yn Trostre/dileu tâl am barcio ynghanol y dref i leihau dibynnu ar geir
- Gweithgareddau i'r henoed yn y neuadd
- Parth 20mya ger yr ysgol
- Tai fforddiadwy ym Maesgwynne
- Gorfodi rheoliadau ynglŷn â baw cŵn
- Balchder ym Mhum Heol- Pum Heol Pum Seren
- Clwb Ieuenctid – arddull newydd- chwarae awyr agored i'r Meithrin
- Cynllunio/strategaeth tai i ddarparu mwy o dai fforddiadwy i deuluoedd ifanc
- Ymgynghoriad ehangach gyda'r henoed a phobol ifanc – LRC/Menter Cwm Gwendraeth Elli
- Menter gymunedol i ail agor siop
- Swyddog Datblygu Cymunedol Llanelli Wledig – dwyieithog yn bwysig
- Hyrwyddo grwpiau presennol i drigolion
- Mabwysiadu pob ffordd ar ddatblygiadau newydd/draenio sgwar criced
- Tarmacio heolydd i safon. Marchnata a hyrwyddo llwybrau lleol/man prydferth

HENGOED (FFWRNES A MAENGWYNNE, PWLL, SANDY, STRADE)





Mae **Hengoed** yn cynnwys rhan helaeth o'r ardal Wledig gan gyfuno ardaloedd trefol a rhannol-wledig. Gyda phoblogaeth o 3,683 mae'r ardal yn ymestyn dros croes-doriad eang o oedrannau a lefelau cymharol o olud ac amddifadedd. Eto, mae rhai cyflogwyr arwyddocaol wedi'u lleoli yn llythrennol ar stepen drws cymunedau lleol gan gynnig rhagolygon swyddi ac sy'n ceisio bod yn rhan o'r gymuned leol. Mae ardaloedd megis Strade a Sandy wedi gweld llawer o adeiladu tai newydd gyda mwy wedi'u cynllunio sy'n cyflwyno her ar gyfer cydlyniad cymunedol. Nodir yr ardal fel un sy'n cyflwyno perygl llifogydd arwyddocaol ac mae'n profi tagfa traffig yn rheolaidd. Mae rhan arfordirol Hengoed sy wedi'i leoli yn gyfagos i Barc Arfordirol y Mileniwm gwych yn brif atyniad ac yn cyflwyno cyfleoedd am ddatblygiadau busnesau lleol a swyddi pellach. Mae ardal Maengwynne yng ngogledd y ward yn ardal breswyl sy'n rhannol ynysig gyda diffyg ffocws ffisegol i'r gymuned ac yn cynnig cyfle am ddatblygiad tai posibl pellach.

Materion Ffwrnes

- Llifogydd – capasiti y system draenio yn wir bryder, annigonol yn wyneb y topograffi a'r afon – ffocws ar adferiad ar gyfer tai newydd yn Strade ond mae newidiadau i geuffosydd, diffyg archwiliad a chynnal a chadw rheolaidd yn golygu y bydd llifogydd blaenorol yn digwydd eto
- Traffig o gwmpas y sgwar ar adegau prysur
- Gor-yrru ar Heol Pentrepoeth
- Sbwriel ar y ffordd o'r Sgwar i Faengwynne – dim ond un bin yn y pentref
- Ansawdd Aer – adleoli gwaith cymysgedd parod ond o hyd yn broblem-arferion llwytho gwael yn y gwaith sment
- Safle treftadaeth Ffwrnes angen cadwraeth, adferiad, dehongliad
- Lôn tu ol i Heol Strade- sbwriel a baw ci
- Defnyddio'r dyffryn fel ardal bio amrywiaeth a phrydferthwch naturiol

Materion Pwll /Maengwynne

- Dim grŵp mam a'i phlentyn- dim ond dechrau'n deg – canlyniad ysgolion lleol yn colli niferoedd- gwirio ystadegau *
- Colli cyfleusterau–llyfrgell, canolfan gymunedol (yn ystod y dydd), maes chwarae, clwb ieuenctid, clwb ar ol ysgol
- Dim chwaraeon iau er bod mannau criced a phel droed da – CSC yn codi tal am gynnal a chadw
- Dim cyfleusterau yn ystod y dydd i drigolion hŷn
- Swyddfa Bost yn cau 9/4/15
- Colli cyfleusterau cymuned yn golygu ynysu i newydd ddyfodiaid a thrigolion tymor hir
- Angen mwy o wirfoddolwyr
- Cyflwr/atgywiriadau ym mhafiliwn Pwll - teils, llwydni, diogelwch

- Troseddu – dim Gwarchod Cymdogol neu PACT
- Problem cyffuriau – cynnydd mewn digwyddiadau
- Ni weithredir 'Bihafiwch neu Cewch eich Gwahardd' yn y pentref
- Dim cyllid oddi wrth y Cyngor Gwledig ar gyfer Coeden Nadolig/blodau
- Diffyg cefnogaeth ariannol i ddigwyddiadau cymunedol
- Grwpiau lleol yn gweithredu'n ynysig a gall aelodaeth fod yn gyfyngedig
- Tryloywder llywodraeth leol- dim syrjeri Cynghorwr, i ble mae arian cist y gymuned yn mynd?

Syniadau Ffwrnes

Blaenoriaeth 1 – llifogydd – angen pwynt allanfa newydd rhwng Stradey Arms a'r teras cyntaf- cael dŵr i redeg ar draws Lôn Penyfai- angen archwiliad dreaniau a cheuffosydd

Blaenoriaeth 2 – Cadwraeth Ffwrnes– atgyfodi cynnig blaenorol i adfer a gwneud y mwyaf o safle hanesyddol Ffwrnes

Blaenoriaeth 3 –Sbwriel – Ad-daliad cymunedol i dargedu mannau gwael mewn cysylltiad â thrigolion lleol- Sustrans yn ystyried biniau ar y llwybr seiclo cenedlaethol

- Croesfan mwy diogel yn Old Road ger pont Ffwrnes
- Atal Heol Pentrepoeth rhag cael ei defnyddio fel ffordd torri trwodd
- Marchnata canolfan gymunedol
- Clymu'r ardal gyda Llwybr Sant Illtyd – taith y pererinion i Abaty Margam
- Ymgymryd â PACT/Gwarchod Cymdogol– canfasio i fesur cefnogaeth
- Eglurhad oddi wrth y Cyngor Gwledig – beth all Ffwrnes ei hawlio ar gyfer prosiectau cymunedol
- Newyddion Cymunedol – The Star
- Datblygu digwyddiad cymunedol newydd- ffair aeaf i ddod a grwpiau at ei gilydd
- Mwy o falchder yn yr ardal yn taclo baw cŵn- tynnu nol biniau – cadw tu allan i'r cartref yn rhydd o sbwriel
- Gallai gwell goleuadau annog pobol i beidio taflu sbwriel gyda'r nos
- Absenoldeb llety llai i'r henoed lleol
- Maint a chyflymdra traffig– effaith gwaith ffordd- cyson
- Trafnidiaeth cyhoeddus gwael - llai aml, dim gwasnaeth gyda'r hwyr nac ar ddydd Sul
- Cysgodfannau bysiau anniben/anniogel

Syniadau Pwll/Maengwynne


Blaenoriaeth 1 – Cyngor Gwledig i gymryd gofal o'r parc – amlygu buddion yn gyffredinol/potensial i'r gymuned wneud hyn

Blaenoriaeth 2 – Sgwrs/deialog gyda chwmniau bysiau

Blaenoriaeth 3 – Glasu/blodeuo Pwll

- Ail agor ardal chwarae mewn gwell lleoliad yn agosach i'r pafiliwn
- Potensial cyflogaeth i harneisio twristiaeth, annog pobol i aros a gwario
- Symud swyddfa'r post i leoliad arall neu opsiwn symudol?
- Darpariaeth gyntaf cymunedau gorau i blant bach yn cael ei ymestyn i bobol eraill
- Digwyddiadau cymunedol i feithrin mwy o synnwyr am gymuned, cyfranogiad ehangach
- Credydau Amser – erthygl yn Nghylchgrawn Pwll i annog mwy o ymgysylltiad cymunedol
- Lleoliad ar gyfer grŵp newydd mam/plentyn – festri Bethlehem?
- Goleuadau ar y llwybr seiclo ac o gwmpas y pafiliwn/agor y llyn ar gyfer chwaraeon dŵr
- Nodi safleoedd posibl ar gyfer llety cysgodol/tai i'r henoed
- Camerau cyflymdra cyfartaledd bob pen i'r pentrerf, cylchfan bach wrth y fynedfa i'r Pafiliwn
- Ail agor cyfleuster cymunedol a chymuned yn tyfu- Maengwynne

LLWYNHENDY



Mae **Llwynhendy** yn ardal arall â phoblogaeth uchel ac mae wedi esblygu dros amser ac o ganlyniad i ddatblygiad newydd yn dair ardal ar wahân. Mae un o'r ardaloedd hyn yn elwa o'r rhaglen Cymunedau'n Gyntaf wrth iddi brofi cyfran uwch o iechyd, addysg ac amddifadedd cyflogaeth. Fel yr ardal gyda'r boblogaeth ieuengaf yn gyffredinol amlygwyd materion sy'n gysylltiedig â datblygiad a diogelwch pobol ifanc yn y gweithdy cymunedol a'r ymatebion i'r arolwg. Mae'r ardal wedi'i lleoli yn agos i gyfleusterau siopa Trostre a Pemberton ac mae Parc y Scarlets yn gymydog agos. Roedd enghreifftiau o ddefnyddio cyffuriau yn gyhoeddus ac ymddygiad gwrth gymdeithasol yn faterion allweddol - nodwyd bod annog pobol ifanc i ddefnyddio'r cyfleusterau awyr agored sydd ar gael yn drefnus a diogel a darparu darpariaeth dan do newydd i bobol ifanc yn ddull o ymateb ar lefel cymunedol.
Roedd newid yn llwybrau taith bysiau yn ddiweddar wedi achosi cryn anghyfleustra i bobol hŷn ac amlygwyd yr angen am fwy o fannau parcio i drigolion.

Materion

- Parcio – Heol Brynsierfel, ysgol a Pharc y Scarlets ar ddiwrnod gêm- problemau
- Trafnidiaeth - newid taith bws yn achosi ynysu
- Cau Swyddfa'r Heddlu – presenoldeb llyfrgell/cau llyfrgell dros dro?
- Diffyg cyfleusterau cymunedol (ieuenctid, gweithgareddau yn ystod y dydd)
- Sbwriel yn cynnwys gwydr yn yr ardaloedd chwarae!
- Biniau ailgylchu yn gor lifo
- Safle economaidd-gymdeithasol yr ardal yn effeithio ar y ffordd y gwneir penderfyniadau ynglŷn â gwasanaethau e.e. dyraniad tai methu rhoi barn ac felly canlyniad yw cau a chrynhoad o achosion anodd iawn.

Syniadau

Blaenoriaeth 1 Cyfleuster Ieuenctid
Blaenoriaeth 2 Taith bysiau heibio i ganolfannau henoed
Blaenoriaeth 3 Monitro tenantiaeth– tair croes ac allan

- Casgliadau mwy rheolaidd o gynwysyddion ail gylchu
- Parcio ar ymylon gwyrdd yn bosibl gan ddefnyddio arwynebau newydd?
- Gorfodaeth parcio ar ddiwrnod gêm
- Gwasanaethau trafnidiaeth cymunedol
- Gwybodaeth ynglŷn â phenderfyniadau ar lwybrau teithio- ymgynghoriad?
- Ymateb y gymuned i'r perygl o drosedd
- Gorfodaeth ymddygiad gwrth gymdeithasol mewn mannau penodol
- Addysg gymunedol

• Y pentref wedi tyfu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diweddar • Defnyddio cyffuriau a salwch perthynol/effaith ar y gymuned • Hyfforddiant ar gyfer asiantaethau cymorth ynglŷn â chyffuriau • Crynhoad o unigolion heriol yn yr ardal • Y gallu i ddysgu a hawlio cyfranogiad a chyrhaeddiad sy'n effeithio • Diffyg gofal plant/clybiau fforddiadwy y tu allan i'r ysgol • Band llydan fforddiadwy • Ymddygiad gwrth gymdeithasol • Hyder isel o ran anhysbysrwydd wrth hysbysu – cyfranogiad PACT/ Ymateb i Faterion? • Newid llwybr bysiau yn anodd i'r henoed • Cyfathrebu ynglŷn â gweithgareddau/digwyddiadau yn yr ardal yn wael e.e. gweithgareddau Llwyn yr Ynys heb eu hysbysebu yn allanol	• Gwell cyhoeddusrwydd i gasglu nodwyddau diogel- rhif cyswllt • Ansawdd, amlder ymateb yr heddlu • Cyfiawnder adferiad • Hyfforddiant i sefydliadau cymorth ynglŷn â chyffuriau • Cyngor personol ar gyfer hyfforddiant i rieni sengl • Gofal plant fforddiadwy a hyblyg • Man penodol ar gyfer Wi-Fi lleol am ddim • Caffi rhyngrwyd/cyrsiau llyfrgell digidol • Gwasanaeth gwirfoddol i helpu trefnu gweithgareddau • Byddai dyfarnu ar gyfer pob grant yn helpu i dalu am deithiau, gweithgareddau a bws i gasglu pobol o'u cartrefi? • Gwell newyddion am weithgareddau/cyfleusterau yn Llwynhendy yn y wasg lleol • Sesiwn blasu – celf/crefft, nofio

SWISS VALLEY



Swiss Valley - wedi'i leoli yng ngogledd yr ardal Wledig ac yn elwa o fynediad i gefn gwlad gyfagos a golygfeydd godidog o Aber Llwchwr. Mae Swiss Valley yn gartref i 2,525 o bobol - mae ganddo'r boblogaeth hynaf yn Llanelli Wledig ac yn cyflwyno materion penodol i'r dyfodol yn nhermau mynediad (mae'r ardal ar dir serth iawn) a gwasanaethau gofal. Yn ardal breswyl yn bennaf, mae'r ardal yn ymylu ar ddau o brif gyflogwyr Felinfoel (Gestamp a Calsonic) ac mae un o'r prif ffyrdd i mewn i Lanelli yn mynd trwy'r gymuned sy'n cael effaith ar ansawdd aer ar adegau penodol.
Nodwyd fod cadw'r ardal yn lân ac annog mwy o ymgysylltiad cymunedol wrth daclo materion lleol fel blaenoriaethau ar gyfer sylw trwy holl broses y cynllun lle cyfan.

Materion

- Parc chwarae i blant- diogelwch cyfarpar ac ansawdd cyffredinol yr ardal (gwelliant wedi'i gynllunio ar gyfer haf 2015)
- Pobol ifanc wedi'u dadleoli- rhoi cynllun y parc iddyn nhw
- Blaen y siop- diffyg harddwch
- Cyflwr y ceunant- ansawdd amgylcheddol
- Materion draenio/carthffosiaeth
- Etifeddu cynllunio gwael- diffyg lleoedd parcio i drigolion
- Mân-ladrad – goleuadau addurniadol
- Swyddfa Bost wedi mynd
- Teithiau Bws – amser a gymer i fynd i'r dref- 5.45 amser y bws olaf o'r dref
- Prif ffordd- cynnydd yn y traffig a chyflymder- ansawdd aer?
- Defnydd o'r cwar – gorfodi cyfyngiadau?
- Cartrefi gwag – gor dyfiant – effeithio delwedd yr ardal
- Apathi – lefel cyfranogiad yn y gymdeithas trigolion

Syniadau

Blaenoriaeth 1 – prosiect agor caeau'r ysgol ar gyfer defnydd ehangach/chwaraeon i blant hŷn

Blaenoriaeth 2 – Glasu gwell a chynnal a chadw yr ardal o flaen y siop

Blaenoriaeth 3 – Annog mwy o ymgysylltiad cymunedol – darparu amwynderau lleol/glanhau'r gymuned- hyrwyddo y dull Credydau Amser

Atodiad B – CYNLLUN GWEITHREDU PENNAWD LLE CYFAN

Thema	2015	2016/hanner 1af	2016 / 2il hanner	2017/ hanner 1af	2017/2il hanner	2018
Lle Ffyniannus	Gwaith Llanelli - Datblygu achos busnes a chynllun busnes i'r cwmni	Ymgynghori â chyflogwyr a Chanolfan Gwaith am y model ac addasu yn ôl adborth	Lansio asiantaeth	Adolygu cynnydd asiantaeth		
		Nodi llwybr i lansio trwy LRC neu bartneriaeth gydag asiantaeth bresennol neu endid newydd	Cysylltu ag ysgolion uwchradd ynglŷn ag anghenion cefnogi gyrfaoedd	Peilot pwrcasu cymunedol	Cyfle pellach i bwrcasu cymunedol	
		Ymchwil pwrcasu cymunedol	Gwahodd cwmnïau lleol i gynnig cymorth i ysgolion yn erbyn bwydlen opsiynau	Trosglwyddo cymorth cyflogwr/ysgolion	Gwerthuso rhaglen ysgolion/busnes	
Lle Cydnerth	Wardeiniaid Llifogydd cymunedol- Cysylltu â Chyngor Tref Llanelli ynglŷn â pheilot	Ymddiriedolaeth Datblygiad Mannau Agored a Gwyrdd Llanelli (LOGSDT) – Nodi lleoliadau ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol	LOGSDT - Cynlluniau cyllid cynaliadwy ar gyfer pob ased	Wardeiniaid LlC yn gwerthuso'r peilot ac ymestyn i ardaloedd eraill		
	Cytuno ar ardal ychwanegol- Ffwrnes, Bynea neu Dafen	LOGSDT – Asesu dogfennau llywodraethol ar gyfer ymddiriedolaeth	LOGSDT – Ceisiadau cyllid ar gyfer gwella asedau			
	LOGSDT – Mapio asedau presennol	LOGSDT – Recriwtio ymddiriedolwyr				

Thema	2015	2016/ hanner 1af	2016 / 2il hanner	2017/ hanner 1af	2017/2il hanner	2018
Lle Iachus	Cadw Llanelli'n Daclus Keep Llanelli Tidy (KLT) – nodi ardaloedd targed	KLT – Gweithredu projectau lleol				
	KLT - hyrwyddo/trefnu atebion lleol		Rhoi cyhoeddusrwydd i arfer da – cystadleuthau etc			
	Cymunedau Gofalgar (CC) Casglu cyfeirlyfr o grwpiau lleol	CC-Datblygu rhaglen o gyfleoedd	CC – Hyrwyddo rhaglen i dargedu cymuned	CC – Paru defnyddwyr gyda chyfleoedd		
Lle Mwy Cyfartal	Cyfeillion stryd- mapio rhwydwaith presennol	Cyfeillion stryd – dysgu gwersi oddi wrth raglen flaenorol	Datblygu disgrifiad o rôl ardal Wledig			
	Cyfleusterau Ieuenctid Nodi ardaloedd megis Llwynhendy sy ddim o dan ofal CSC– trefnu cyfarfod	Cyfleusterau Ieuenctid Sefydlu fforwm o dan ofal ieuenctid ar gyfer ardaloedd sydd â diffyg darpariaeth bresennol a mynd i'r afael a phryderon, asesu'r galw a'r angen	Recriwtio cyfeillion			
	Coladu a rhestru'r gweithgareddau ieuenctid amrywiol a gynigir mewn ardaloedd Gwledig ac o gwmpas	Casglu astudiaethau achos: Dr Mz (Caerfyrddin), Llandysul Paddlers, Urdd	Sefydlu clybiau ieuenctid/cyfleusterau newydd			

Thema	2015	2016/ hanner 1af	2016 / 2il hanner	2017/ hanner 1af	2017/2il hanner	2018
Lle Cydlynol	Siopau cymunedol (SC) – Adeiladu Portffolio o Astudiaethau Achos (e.e. Caffi Smooth Community, Siop Brechfa)	SC – Nodi esiamplau project	SC – Cynllunio Busnes	Datblygiad Cais (yn amodol ar addasrwydd)		
	SC- Cyfarfod Cyhoeddus a chodi ymwybyddiaeth	SC- Cofrestru ymholiad gyda Chanolfan Cydweithredol Cymru	SC – Agor cyfrif Banc			
	Bws - Cwrdd â First Cymru/CSC	Bws - Cynhyrchu gwybodaeth yn rheolaidd am unrhyw ddiweddariad yn y gymuned	SC – Cais am gyllid	Strategaeth Trafnidiaeth Gymunedol		
Diwylliant Bywiog a'r Iaith Gymraeg yn Ffynnu	Credydau Amser- asesu ehangiad posibl	Credydau Amser –lansio parthau Credydau Amser newydd	Ymatebion gwasanaeth a dargedwyd	Adolygiad mabwysiadu		
	Credydau Amser – cyllid ffynhonnell					
	Yr iaith Gymraeg- Monitro cynnydd project MCGE	Yr iaith Gymraeg- Ymestyn dull Menter Cwm Gwendraeth Elli i ardaloedd Gwledig			Yr iaith Gymraeg - Adolygu mabwysiadu	
Ein lle yn y byd	Ffyrdd o fyw gwyrddach - Casglu gwybodaeth am iechyd, lleihau ynni, cynyddu ailgylchu, cerdded, seiclo etc..	Profi i'r dyfodol – Arwyddo memorandwm o ddealltwriaeth gyda phartneriaid y soniwyd amdanynt yn amlinellu'r angen i ystyried egwyddorion cynllunio projectau cyfredol ac i'r dyfodol				
		Ffyrdd o fyw gwyrddach - Hysbysebu cyfleoedd/mentrau lleol mewn neuaddau cymunedol, hysbysfyrddau, siopau, meddygfeydd				


Thema	2015	2016/ hanner 1af	2016 / 2il hanner	2017/ hanner 1af	2017/2il hanner	2018
Gwneud iddo ddigwydd	Datblygu partneriaeth Llanelli- aelodaeth a chylch gwaith	Astudiaeth dichonolrwydd i ymddiriedolaeth datblygu Llanelli a'r Cylch	Datblygu/asesu aelodaeth o fwrdd ardal peilot		Yn amodol ar gytundeb- Lansio bwrdd ardal	
	Fframwaith mesur Cynllun Lle Cyfan					
	Blaenoriaethau ardal leol	Blaenoriaethau ardal leol	Blaenoriaethau ardal leol		Blaenoriaethau ardal leol	

Atodiad C – Cysylltiadau ag amcanion a chynlluniau'r cyngor

Nod Llesiant	Cynllun Strategol LRC	Cynlluniau Gwasanaeth LRC	Ymyriad Cynllun Lle Cyfan
Cymuned ffyniannus	- Datblygiad Cymunedol - Llais lleol - Gwasanaethu'r Cyhoedd - Economi lleol	- Gwasanaethau cymunedol - Gwasanaethau hyfforddiant	- Gwaith Llanelli - Pwrcasu Cymunedol
Cymuned gydnerth	- Datblygiad Cymunedol - Llais lleol - Gwasanaethu'r Cyhoedd - Ansawdd Bywyd - amgylchedd	- Gwasanaethau cymunedol - Adloniant a Hamdden	- Wardeiniaid Llifogydd cymunedol - Ymddiriedolaeth datblygiad mannau agored a gwyrdd
Cymuned iachach	- Datblygiad Cymunedol - Llais lleol - Gwasanaethu'r Cyhoedd - Ansawdd Bywyd – llesiant	- Gwasanaethau cymunedol - Adloniant a Hamdden	- Cymuned Ofalgar – Cydweithrediad Ardal Leol - Cadw Llanelli'n Daclus
Cymuned fwy cyfartal	- Datblygiad Cymunedol - Llais lleol - Gwasanaethu'r Cyhoedd - Ansawdd Bywyd – cynhwysiad cymdeithasol	- Gwasanaethau cymunedol - Adloniant a Hamdden - Gwasanaethau hyfforddiant	- Cyfeillion stryd/pentref - Datblygiad cyfleusterau Ieuenctid
Cymuned gydlynol	- Datblygiad Cymunedol - Llais lleol - Gwasanaethu'r Cyhoedd - Ansawdd Bywyd – cynhwysiad cymdeithasol - Gweithgareddau Chwaraeon, hamdden a diwylliannol	- Gwasanaethau cymunedol - Adloniant a Hamdden - Gwasanaethau hyfforddiant	- Rhwydwaith siopau cymunedol Llanelli - Gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus
Diwylliant bywiog ac Iaith Gymraeg sy'n Ffynnu	- Datblygiad Cymunedol - Llais lleol - Ansawdd Bywyd – cynhwysiad cymdeithasol - Gweithgareddau Chwaraeon, hamdden a diwylliannol	- Gwasanaethau cymunedol - Adloniant a Hamdden	- Credydau Amser - Hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg
Ein lle yn y byd	- Datblygiad Cymunedol - Democratiaeth leol - Gweithio mewn partneriaeth - Cyfathrebu	- Gwasanaethau cymunedol - Adloniant a Hamdden - Gwasanaethau hyfforddiant	- Profi ein penderfyniadau yn y dyfodol - Hyrwyddo ffyrdd o fyw gwyrddach

NODIADAU

Datblygwyd â chymorth gan The Means Ltd 21-25 West End Yard, Llanelli, SA15 3DN. www.themeans.co.uk


ZEPPELIN



www.llanelli-rural.gov.uk